# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Zoom**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 30 Rhagfyr 2020

Amser y cyfarfod: 10.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/11170

# 313

Roedd y cyfarfod hwn yn gyfarfod adalw o'r Senedd o dan Reol Sefydlog 12.3, a gynhaliwyd ar ffurf hybrid, gydag Aelodau yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## Cynnig i atal Rheolau Sefydlog dros dro

Dechreuodd yr eitem am 10.30

**NDM7531** Rebecca Evans (Gŵyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal Rheolau Sefydlog 12.20(i) a 12.22(i) er mwyn caniatáu i NDM7530 gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 30 Rhagfyr 2020.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 1 Dadl: Diwedd Cyfnod Pontio'r UE

Dechreuodd yr eitem am 10.30

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM7530** Rebecca Evans (Gŵyr)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi'r cytundeb mewn egwyddor y daeth Llywodraeth y DU a'r UE iddo ar ein perthynas hirdymor yn y dyfodol ar ddiwedd y cyfnod pontio.

2. Yn nodi bwriad Llywodraeth y DU i weithredu'r cytundeb drwy Fil yr Undeb Ewropeaidd (Perthynas â'r Dyfodol).

3. Yn edifar nad yw mewn sefyllfa i ystyried cydsyniad deddfwriaethol, gan mai ar fyr rybudd y cafodd y Bil ei ddarparu i'r Senedd a'i fod yn cynnwys darpariaethau a all effeithio ar y setliad datganoli.

4. Yn edifar nad yw'r cytundeb niweidiol hwn yn adlewyrchu dyheadau'r Senedd fel y'u hadlewyrchir yn 'Diogelu Dyfodol Cymru' a hefyd yn 'Y Berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol: Blaenoriaethau i Gymru' ond serch hynny, yn derbyn bod y cytundeb hwn yn llai niweidiol na gadael y cyfnod pontio heb gytundeb masnach.

5. Yn cefnogi’r ymdrechion parhaus i wneud popeth i darfu cyn lleied â phosibl yn y byrdymor ac i leihau'r niwed hirdymor a fydd yn deillio o'r newid yn ein cydberthynas economaidd â'r UE, ac yn galw ar Lywodraeth y DU i weithio gyda Llywodraeth Cymru i'r perwyl hwnnw.

Diogelu dyfodol Cymru

Y berthynas rhwng y DU a’r UE yn y dyfodol: blaenoriaethau negodi i Gymru

**Yn unol â Rheol Sefydlog 12.23(iii), ni ddetholwyd 6 o’r 10 gwelliant a gyflwynwyd i’r cynnig.**

**Detholwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

1. Yn croesawu'r cytundeb masnach a chydweithrediad rhwng Llywodraeth y DU a'r Undeb Ewropeaidd.

2. Yn credu ei bod er budd Cymru i roi cefnogaeth i'r cytundeb a rhoi cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer ei weithredu drwy Fil yr Undeb Ewropeaidd (Perthynas yn y Dyfodol).

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio'n adeiladol gyda Llywodraeth y DU i fanteisio ar gyfleoedd newydd i Gymru sy'n deillio o ddiwedd y cyfnod pontio ar ôl Brexit.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 12 | 3 | 37 | 52 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 Caroline Jones (Gorllewin De Cymru)**

Dileu popeth ar ôl pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn gresynu nad yw'r cytundeb yn adlewyrchu ewyllys pobl Cymru yn llawn, fel y mynegwyd yn refferendwm yr Undeb Ewropeaidd ym mis Mehefin 2016, ond yn nodi ei fod yn symud y Deyrnas Unedig o fod yn ddarostyngedig i gyfreithiau'r Undeb Ewropeaidd, sydd wedi cael effaith niweidiol ar ein heconomi a sofraniaeth, ac yn rhoi terfyn ar wleidyddiaeth ymrannol a fynegir gan ymgyrchwyr aros wrth wadu'r broses ddemocrataidd.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 3 | 3 | 46 | 52 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 Sian Gwenllian (Arfon)**

Ym mhwynt 4, dileu ‘ond serch hynny, yn derbyn bod y cytundeb hwn yn llai niweidiol na gadael y cyfnod pontio heb gytundeb masnach' a rhoi yn ei le 'ac yn credu ei fod yn cynrychioli Brexit caled nad oes mandad ar ei gyfer ac nad yw o fudd i Gymru'.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 9 | 1 | 42 | 52 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 Sian Gwenllian (Arfon)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn peidio cefnogi bargen Llywodraeth Geidwadol y DU ac yn galw ar gynrychiolwyr Cymru yn Senedd y DU i bleidleisio yn unol â hynny.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 10 | 27 | 15 | 52 |

**Gwrthodwyd gwelliant 4.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**

**NDM7530** Rebecca Evans (Gŵyr)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi'r cytundeb mewn egwyddor y daeth Llywodraeth y DU a'r UE iddo ar ein perthynas hirdymor yn y dyfodol ar ddiwedd y cyfnod pontio.

2. Yn nodi bwriad Llywodraeth y DU i weithredu'r cytundeb drwy Fil yr Undeb Ewropeaidd (Perthynas â'r Dyfodol).

3. Yn edifar nad yw mewn sefyllfa i ystyried cydsyniad deddfwriaethol, gan mai ar fyr rybudd y cafodd y Bil ei ddarparu i'r Senedd a'i fod yn cynnwys darpariaethau a all effeithio ar y setliad datganoli.

4. Yn edifar nad yw'r cytundeb niweidiol hwn yn adlewyrchu dyheadau'r Senedd fel y'u hadlewyrchir yn 'Diogelu Dyfodol Cymru' a hefyd yn 'Y Berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol: Blaenoriaethau i Gymru' ond serch hynny, yn derbyn bod y cytundeb hwn yn llai niweidiol na gadael y cyfnod pontio heb gytundeb masnach.

5. Yn cefnogi'r ymdrechion parhaus i wneud popeth i darfu cyn lleied â phosibl yn y byrdymor ac i leihau'r niwed hirdymor a fydd yn deillio o'r newid yn ein cydberthynas economaidd â'r UE, ac yn galw ar Lywodraeth y DU i weithio gyda Llywodraeth Cymru i'r perwyl hwnnw.

Diogelu dyfodol Cymru

Y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol: blaenoriaethau negodi i Gymru

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 28 | 0 | 24 | 52 |

Derbyniwyd y cynnig.

Yn unol â Rheol Sefydlog 34.14D, am 12.07, cafodd y trafodion eu hatal dros dro er mwyn caniatáu egwyl technegol cyn y cyfnod pleidleisio.

## 2 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 12.14

## 3 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Y wybodaeth ddiweddaraf am Coronafeirws

Dechreuodd yr eitem am 12.18

Daeth y cyfarfod i ben am 13.17

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 12 Ionawr 2021